Ymateb i adroddiad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol:

'Cyngor Celfyddydau Cymru – Cefnogi Prosiectau Cyfalaf Mawr'

Adroddiad Pwyllgor AC(3) 05-08 – Gorffennaf 2008

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r Adroddiad, ac ar ôl trafod gyda chyngor Celfyddydau Cymru, cynigiwn yr ymateb canlynol i'r chwe argymhelliad a wnaed yn yr Adroddiad. Mae eitem (i) o'r argymhellion hefyd yn gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru ymateb i'r naw argymhelliad yn Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, dyddiedig 31 Ionawr 2008, yn rhan o'r ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio.

Ymdriniwn â'r argymhellion hynny yn gyntaf.

1 Er mwyn cael mwy o fudd o'i bartneriaethau ariannu dylai'r Cyngor Celfyddydau wneud cytundebau partneriaeth strategol gyda phartneriaid ariannu allweddol yn Llywodraeth y Cynulliad (Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a'r Adran yr Economi a Thrafnidiaeth newydd), fel y bydd gwell gwybodaeth gan y naill a'r llall am flaenoriaethau rhaglenni a phrosesau rheoli rhaglenni ei gilydd ac i hwyluso cydweithredu ar brosiectau cyfalaf penodol.

Derbynnir yr Argymhelliad – bydd y Cyngor Celfyddydau, trwy'r adran sy'n ei noddi yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn sefydlu perthnasau partneriaeth mwy ffurfiol â phartneriaid ariannu allweddol yn Llywodraeth y Cynulliad, ynglŷn â phrosiectau cyfalaf yn y dyfodol. Bydd y partneriaethau mwy ffurfiol hyn ar ffurf Memorandwm Dealltwriaeth, a datblygir hwy â'r partneriaid ariannu allweddol yn ystod 2008/09.

2 Er mwyn cael mwy o fudd o'i bartneriaethau ariannu dylai'r Cyngor Celfyddydau fabwysiadu rôl y partner arweiniol ar y prosiectau mawr hynny lle mae'n darparu'r prif gyllid, gyda chymeradwyaeth yr adran sy'n ei noddi yn Llywodraeth y Cynulliad (yr Adran Materion Gwledig a Threftadaeth newydd) a gyda chytundeb partneriaid ariannu allweddol eraill, i wella'r cydgysylltu rhwng partneriaid ariannu a lleihau'r baich gweinyddol ar y rhai sy'n ymgeisio am grantiau ac yn eu derbyn.

Derbynnir yr Argymhelliad – fel a nodir uchod, bydd y Cyngor Celfyddydau yn gweithio, trwy'r adran sy'n ei noddi yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ffurfioli ei berthnasau gwaith â phartneriaid ariannu allweddol, ynglŷn â phrosiectau cyfalaf yn y dyfodol. Bydd y partneriaethau mwy ffurfiol hyn ar ffurf Memoranda Dealltwriaeth, a ddatblygir ar y cyd â'r partneriaid ariannu allweddol yn ystod 2008/09, a cheisir cytuno ar arweinyddiaeth y prosiectau a lleihau'r baich gweinyddol.

3 Er mwyn cael mwy o fudd o'i bartneriaethau ariannu dylai'r Cyngor Celfyddydau, mewn cysylltiad â cheisiadau am grantiau, rannu gwybodaeth mewn modd systematig am y cyrff sy'n ymgeisio a'u prosiectau arfaethedig gyda'i brif bartneriaid ariannu, er mwyn gweithredu'n fwy effeithlon a bod yn fwy ymatebol i gleientiaid.

Derbynnir yr Argymhelliad – Mae'r Cyngor Celfyddydau eisoes yn rhannu gwybodaeth â'r prif bartneriaid ariannu, ynglŷn ag ymgeiswyr a'u cynigion am brosiectau, ond gwneir hynny yn anffurfiol ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor Celfyddydau yn ffurfioli'r broses honno wrth ddatblygu'r Memoranda Dealltwriaeth, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei rhannu yn systematig.

4 Er mwyn cael mwy o fudd o'i bartneriaethau ariannu dylai'r Cyngor Celfyddydau, mewn cysylltiad â prosiectau yn ystod y cyfnod adeiladu, ymgynghori â'i brif bartneriaid ariannu a chyrff celfyddydol ynghylch symleiddio'r gofynion arferol am gael gwybodaeth gan y rhai sy'n derbyn grantiau a chydamseru amserlenni adrodd, er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar y rhai sy'n derbyn grantiau a pheri i'r wybodaeth mewn adroddiadau fod yn fwy cyson a chymaradwy.

Derbynnir yr Argymhelliad –fel a nodir uchod, bydd y Cyngor Celfyddydau yn cydweithio â'r adran sy'n ei noddi yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ffurfioli ei berthnasau â phartneriaid ariannu allweddol, ynglŷn â phrosiectau cyfalaf yn y dyfodol. Bydd y partneriaethau mwy ffurfiol hyn ar ffurf Memorandwm Dealltwriaeth, a datblygir hwy ar y cyd â'r partneriaid ariannu allweddol yn ystod 2008/09. Un elfen yn y Memorandwm Dealltwriaeth fydd ymgais i symleiddio'r broses grantiau ac osgoi dyblygu diangen.

Bydd CCC hefyd yn ymgynghori â chyllidwyr eraill sy'n bartneriaid, gan gynnwys Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Loteri Fawr, i weithio ar symleiddio'r gofynion gwybodaeth ac osgoi dyblygu.

Ym mis Hydref 2006, cynhaliodd y Cyngor Celfyddydau broses ymgynghori gynhwysfawr, gan gysylltu â chyfanswm o 85 o sefydliadau a oedd wedi cael dyfarniad cyfalaf yn ystod y flwyddyn honno. Cafwyd 51 o ymatebion. Canolbwynt yr ymgynghoriad oedd y broses asesu, a gofynnwyd am sylwadau gan y derbynyddion ynghylch pa agweddau oedd yn effeithiol a pha rai nad oeddent mor effeithiol. Gofynnwyd i'r sefydliadau awgrymu gwelliannau yn ogystal. Adroddwyd y canfyddiadau wrth Bwyllgor Cyfalaf CCC yn Rhagfyr 2006 ac at ei gilydd roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol iawn. Adolygwyd y Canllawiau Cyfalaf a'r ffurflenni cais ac addaswyd hwy yn unol â'r canfyddiadau yn gynnar yn 2007. Gellid cynnwys gwerthusiad cyffelyb o'r monitro yn ystod ac ar ôl adeiladu, yn rhan o'r gwerthuso cynhwysfawr a gynigir ym Mhwynt 9

5 Er mwyn gwella ymhellach y modd y mae'n rheoli risgiau, dylai'r Cyngor Celfyddydau, gan gydnabod y gallai risgiau i brosiectau gael eu gwireddu'n gynnar, fod â chofrestrau risgiau ar gyfer pob grant cyfalaf mawr a roddir, a fydd yn cwmpasu cylch oes cyfan y prosiect, ac nid y cyfnod ar ôl y cam cyn tendro yn unig

Derbynnir yr Argymhelliad – mae'r Cyngor Celfyddydau eisoes wedi gweithredu'r argymhelliad hwn, ac y mae ganddo bellach gofrestrau risgiau yn weithredol ar gyfer cylch oes cyfan pob prosiect cyfalaf.

6 Er mwyn gwella ymhellach y modd y mae'n rheoli risgiau, dylai'r Cyngor Celfyddydau hyrwyddo methodoleg safonol ar gyfer dadansoddi sensitifrwydd, i'w defnyddio gan ymgeiswyr am grant ar y rhagdybiaethau allweddol yn eu hachos busnes, yn achos prosiectau sydd â'u gwerth neu'u risg yn uchel, er mwyn dangos i ba raddau y mae eu cynlluniau busnes a'u hamcanestyniadau ariannol yn agored i ansicrwydd.

Derbynnir yr Argymhelliad – bydd y Cyngor Celfyddydau yn cydweithio â'r ymgeiswyr am grant yn ystod 2008/09, i ddatblygu a defnyddio templed safonol ar gyfer dadansoddi sensitifrwydd, ar gyfer pob ymgeisydd am grant.

7 Er mwyn gwella ymhellach y modd y mae'n rheoli risgiau, dylai'r Cyngor Celfyddydau gynnwys mewn ffurflenni archwilio cyfalaf blynyddol gwestiynau am hyfywedd ariannol y rhai sy'n derbyn grantiau cyfalaf sydd â'u gwerth neu'u risg yn uchel.

Derbynnir yr Argymhelliad – bydd y Cyngor Celfyddydau yn cynnwys y cwestiynau yn y ffurflenni archwilio.

8 Er mwyn dal ar wersi a ddysgwyd a'u lledaenu er mwyn gwella yn y dyfodol, dylai'r Cyngor Celfyddydau gymryd camau i hwyluso mentora rhwng y rhai sy'n ymgeisio am grantiau a'r rhai sy'n eu derbyn, er mwyn gwella'r trosglwyddo ar wybodaeth a phrofiad ynghylch ymgeisio am grantiau cyfalaf, rheoli prosiectau cyfalaf a chynnal gweithgarwch celfyddydol.

Derbynnir yr Argymhelliad – mae'r Cyngor Celfyddydau yn cydnabod pwysigrwydd rhannu profiad, a'r gwersi a ddysgir, rhwng ymgeiswyr am grantiau. Bydd y Cyngor yn parhau i hwyluso rhannu gwybodaeth ac arferion da rhwng ymgeiswyr, ac yn cydweithio â derbynyddion y grantiau i annog rhannu gwybodaeth yn y modd hwnnw.

Bydd CCC yn annog derbynyddion Grant Cyfalaf i rannu eu profiad ag eraill, ac yn cynnwys yr argymhelliad hwnnw yn ei Ganllawiau Cyfalaf. Dylid casglu adborth gan ymgeiswyr yn y cyfnod ar ôl cwblhau, yn rhan o'r gwerthusiad a argymhellir isod, a bydd CCC yn cynnwys canfyddiadau a chyngor yn ei Ganllawiau Prosiectau Cyfalaf.

9 Er mwyn dal ar wersi a ddysgwyd a'u lledaenu er mwyn gwella yn y dyfodol, dylai'r Cyngor Celfyddydau sefydlu rhaglen ar gyfer asesu yn systematig effeithiau canoldymor (rhwng tair a phum mlynedd) a hirdymor (10+ o flynyddoedd) prosiectau a dderbyniodd grantiau, fel sail i wella rhaglen gyfalaf y Cyngor Celfyddydau yn barhaus.

Derbynnir yr Argymhelliad – mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn derbyn bod angen gwerthuso effeithiau canoldymor a

hirdymor prosiectau cyfalaf, i gynorthwyo gyda chynllunio rhaglen gyfalaf y Cyngor yn strategol yn y dyfodol, a chynllunio'r ddarpariaeth gelfyddydol yn strategol ledled Cymru. Bydd angen cynllunio i wneud y gofyniad hwn yn rhan o ystyriaethau cyllidebol 2009-2011 ar gyfer ariannu'r Cyngor Celfyddydau.

Cyfeiriwn yn ôl at yr argymhellion eraill yn Adroddiad y Pwyllgor Archwilio.

10 Rydym yn argymell bod Cyngor y Celfyddydau yn gwella ei ffyrdd o asesu prosiectau er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio mwy ar risgiau, gydag ansawdd a dichonolrwydd yn ddau brif gategori ar gyfer asesu risgiau prosiectau.

Derbynnir yr Argymhelliad – mae Cyngor Celfyddydau Cymru eisoes wedi gweithredu'r argymhelliad hwn trwy ffurfioli ei ymarfer. Mae'r Cyngor bellach yn mynnu bod pob ymgeisydd yn cyflwyno asesiad risg cynhwysfawr ar gyfer ei brosiect yn ystod Cyfnod D RIBA. Yn ychwanegol, mynnir yn awr bod aseswyr allanol yn gwneud sylw penodol ynglŷn â risg. Mae adroddiad y Cyngor Celfyddydau ar hyn o bryd yn cynnwys adran ar risg, a bydd hon yn cael ei gwneud yn fwy cynhwysfawr a chanolog i'r broses.

11 Mewn amgylchedd lle mae adnoddau cyfalaf Cyngor y Celfyddydau a'r awdurdodau lleol eu hunain yn gyfyngedig, rydym yn argymell y dylai Cyngor y Celfyddydau weithio gydag awdurdodau lleol i fanteisio ar gyfleoedd ariannu Ewropeaidd drwy eu cynorthwyo i ddod o hyd i brosiectau celfyddydol addas a hyrwyddo cyfraniad y celfyddydau o ran adfywio cymunedol.

Derbynnir yr Argymhelliad – mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes, yn ei llythyr cylch gwaith ar gyfer 2008/09, yn mynnu bod y Cyngor Celfyddydau yn ymchwilio i gyfleoedd am gyllid Ewropeaidd; ac y mae'r Cyngor Celfyddydau ar hyn o bryd yn cydweithio i lunio cynigion am gyllid gyda nifer o awdurdodau lleol. Bydd yr adran noddi yn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cyngor Celfyddydau yn cydweithio yn ystod 2008/09 i gryfhau'r partneriaethau ag awdurdodau lleol trwy ddatblygu partneriaethau rhanbarthol, a all fanteisio ymhellach ar y cyfleoedd am gyllid Ewropeaidd, a hyrwyddo cyfraniad y celfyddydau i adfywio cymunedau.

12 Rydym yn argymell bod Cyngor y Celfyddydau yn datblygu strategaeth i gynorthwyo'i sefydliadau cleient i ddefnyddio ffynonellau ariannu preifat.

Derbynnir yr Argymhelliad – mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes, yn ei llythyr cylch gwaith ar gyfer 2008/09, yn mynnu bod y Cyngor Celfyddydau yn ymchwilio i fodelau ariannu amgen. Un elfen o'r gwaith hwnnw fydd ymchwil gan y Cyngor Celfyddydau i'r ffordd orau y gall gynorthwyo sefydliadau cleient i fanteisio ar ffynonellau cyllid preifat. Canlyniad y gwaith fydd dogfen strategol ar y model ar gyfer ariannu'r celfyddydau yng Nghymru yn y dyfodol; bydd yn cynnwys gwybodaeth am gyllid cyhoeddus yn ogystal â chynorthwyo sefydliadau i fanteisio ar ffynonellau arian preifat.

13 Wrth benderfynu ar gyfeiriad strategol ei raglen gyfalaf ar gyfer y dyfodol, rydym yn argymell bod Cyngor y Celfyddydau yn rhoi ystyriaeth lawn i'r effeithiau a'r manteision ehangach sy'n deillio o'r prosiectau cyfalaf y mae wedi buddsoddi ynddynt hyd yma.

Derbynnir yr Argymhelliad – Fel a nodir uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi derbyn bod angen gwerthuso effeithiau canoldymor a hirdymor prosiectau cyfalaf, i gynorthwyo gyda chynllunio rhaglen gyfalaf y Cyngor yn strategol yn y dyfodol, a chynllunio'r ddarpariaeth gelfyddydol yn strategol ledled Cymru. Bydd angen cynllunio i wneud y gofyniad hwn, yn rhan o ystyriaethau cyllidebol 2009-2011ar gyfer ariannu'r Cyngor Celfyddydau.